

TEGANAU TREFNANT

gan GWYN JONES

'HWDE, rhywbeth i ti i'w roi yn dy gasgliad o hen bethau,' meddai fy nghyfnither wrthef gryn sbel yn ôl gan roi tri hen degan pren a wnaed yn Nhrefnant, Dinbych, ar ddechrau'r ganrif hon i mi. Ffan ar ffurf gwraig mewn gwisg Gymreig, model o gartref Lloyd George a draig goch. Hyd yma, er dygn chwilio, nid wyf wedi llwyddo i echangu fy nghasgliad. Dyna fan cychwyn holi a chwilio am hanes y cynhyrchion hyn, y ffacдри a phwy oedd yn gyfrifol amdani. Cefais beth o'r hanes ar lafar, ond cyfoethogwyd fy ngwybodaeth pan ddarllenais ffeil yng Nghasgliad Plas Heaton yn Archifdy Rhuthun.

Mary Heaton (1868-1968), yr ieuengaf o un ar ddeg o blant Hugh Edward Heaton, ficer Betws yn Rhos a Catherine Maria Craven oedd y tu cefn i'r fenter. Roedd Mary'n wraig hynod yn ei ffordd ei hun. Ei thiwtor ym Metws yn Rhos oedd Robert Roberts, Y Sgolor Mawr, a threuliodd gyfnod gyda Syr Frank Benson, yr actor Shakesperaid enwog. Yn dilyn marwolaeth ei frawd, daeth ei thad i feddiant stad Plas Heaton, Henllan, yn 1886 a rhoddodd Edward y gorau i'w yrfa eglwysig.

Poenai Mary am y prinder gwaith a'r tlodi oedd yn bodoli ymysg llafurwyr amaethyddol yn ystod misoedd y gaef yn Nyffryn Clwyd a phenderfynodd gychwyn ysgol nos yn Nhrefnant yn ystod gaef 1909 i ddysgu sut i wneud teganau syml o bren gydag offer syml megis cyllell boced, lli a chŷn. Cyflogodd saer lleol, Edward Jones, i ddysgu'r llafurwyr. Cynhaliwyd dosbarthiadau yn ystod y gaefau dilynol yn Llandymog, Bodfari, Cefn Meiriadog a Henllan ar ôl cael grant o £50 gan Bwyllgor Addysg Sir Ddinbych. Buan y gwelwyd nad oedd y dynion yn ddethau iawn wrth addurno'r teganau a rhoddwyd y gwaith o beintio ac addurno i'r merched gyda'r dynion yn gwneud y teganau. Gwneid y gwaith gartref, yna dygid y cynnyrch i Drefnant i'w ddosbarthu ar gyfer ei beintio cyn ei ddychwelyd yn ôl i Drefnant i Mary Heaton fynd â hwy i Lundain i'w gwerthu. Cynhaliwyd y Ffair Ddiwydiannau Gymreig gyntaf yn nhŷ Mrs Naylor Leyland yn Llundain. (Roedd ei stad yn Nantclwyd ger Rhuthun.) Elw'r gwerthiant oedd £3 5s.

Yn 1913 cynhyrchwyd 8,202 o deganau, oedd yn werth £308 19s. 6c. Ar y pryd cyflogid dau beintiwr llawn amser a naw rhan amser gyda thri ar ddeg yn gweithio gartref. Y pryd hwnnw

roedd hi'n bosibl ennill 3s. y dydd yn gwneud teganau. Prynwyd rhai ohonynt gan y Frenhines Alexandra a'r Frenhines Mary ac anfonwyd rhai ganddynt at y Sarina yn Rwsia. Derbyniodd y teganau y fedal aur mewn ffair yn Neuadd Albert yn 1913.

Arddangoswyd y teganau ym Melbourne, Awstralia, yn 1913 ac fe'u gwerthwyd i gyd tra oedd gwerthwyr eraill yn cael anhawster gwerthu eu cynhyrchion. Allforiwyd y teganau i Canada, Tsieina, Yr Unol Daleithiau a Phatagonia ac fe'u gwelwyd ar fyrddau cinio Gŵyl Ddewi yn Calcutta, yn yr India. Gellid eu prynu ar fyrddau llongau'r White Star Line yn ogystal â Llundain, Manceinion, Lerpwl, Yr Amwythig, Betws y Coed, Llandudno, Caernarfon, Y Bala, Y Rhyl a Bae Colwyn. Rhwng 1909 a 1914 amcangyfrifwyd i Deganau Dyffryn Clwyd gyflogi 70 o bobl, talu £800 mewn cyflogau a chynhyrchu 20,000 o deganau. Ym Mhasg 1914 adeiladwyd gweithdy pwrpasol ar Ffordd Henllan, Trefnant, ond oherwydd y Rhyfel Byd Cyntaf arweiniodd hyn i ddyled a gynyddodd i dros £50 yn 1915. Bu'r Rhyfel Byd Cyntaf o fantais i Deganau Dyffryn Clwyd gan na fewnforiwyd teganau o'r Almaen i Brydain a bu cynnydd yng ngwerthiant cynhyrchion Trefnant.

Gwnaed cais llwyddiannus at y Pwyllgor Pensiwn Rhyfel yn 1915 i gyflogi milwyr clwyfedig fel y gallent addasu a chael hyfforddiant i ymgodymu â bywyd ar ôl eu cyfnod yn y fyddin. Felly, daeth ffacдри deganau Trefnant y Ganolfan Hyfforddi Diwydiannau Cefn Gwlad gyntaf ym Mhrydain. Cartrefwyd y milwyr yn Nhrefnant. Ehangwyd y cynhyrchu i gynnwys teganau meddal, dodrefn a seddau gwellt.

Roedd Mrs Lloyd George ar bwyllgor y ffacдри ac ar un achlysur aeth Mary Heaton i'w gweld yn Stryd Downing pan oedd Lloyd George yn Ganghellor. Wedi curo'n galed ar y drws daeth Mrs Lloyd George i'r golwg yn ei choban a chlamp o hosan am ei gwdd! Roedd hi wedi cael annwyd! Roedd un o'r teganau 'Lloyd George Cutting Red Tape' i'w weld ar y sillf ben tân yn 11 Stryd Downing a bu un arall yn lobi Tŷ'r Cyffredin.

Archebwyd teganau gan rai o'r siopau mawr. Comisiynodd siop Derry & Toms arddangosfa ar gyfer eu ffenestr yn 1915 yn dwyn y teitl 'Nadolig mewn twll mewn hen goeden'. Daeth comisiwn arall ym 1916 pan wnaed teganau ar gyfer tŷ 'Nain

Morris (un o'r teganau meddal a gynhyrchwyd), gydag arddangosfa arall yn 1917 'Alice in Wonderland'. Yn yr Arddangosfa Crefftiau a Diwydiannau cartref yn Neuadd Albert yn 1918 derbyniodd tri o'r teganau, 'Yr Orsedd a Chôr yr Eisteddfod', 'Merched Llangollen' a 'Mochyn a Moch Bach', fedal aur am ardderchogrwydd, un goch am gynllunio, ac un las am wneuthuriad. Rhoddodd y frenhines ei chaniatâd i gael ei henw wedi'i gysylltu â'r teganau wedi iddi dderbyn rhai ohonynt.

Erbyn 1918 roedd angen helaethu'r gweithdy yn Nhrefnant. Casglwyd £3,750 yn lleol ar gyfer y gwaith ac ar gyfer prynu cartref pwrpasol i ugain o filwyr a'u hyfforddwr a'i deulu. Cyflawnwyd yr agoriad swyddogol yn Awst 1918 gan Mrs Lloyd George. Cynrychiolwyd y Weinyddiaeth Bensiwn gan Syr Arthur Griffith-Boscawen a chyhoeddodd y byddai'r ganolfan yn cynnig hyfforddiant am flwyddyn mewn gwneud basgedi, gwaith coed a garddwriaeth i filwyr fel y gallent gael gwaith neu gychwyn ar eu pennau eu hunain. Yn 1919 gwerthwyd gwerth £1,487 8s 3c o deganau, gwerth £292 o ddodrefn, a £173 13s o fasgedi.

Bu gan y fenter gyswllt hir â'r Eisteddfod Genedlaethol hefyd. Cynhaliwyd arddangosfeydd o'r cynhyrchion yn yr Eisteddfod yn aml a seiliwyd rhai o'r teganau ar yr Eisteddfod, sef 'Yr Orsedd gyda Dyfed fel Archdderwydd' a 'Côr yr Eisteddfod'. Yn Eisteddfod Corwen cyflwynwyd i Lloyd George beithynen a luniwyd yn Nhrefnant i arwyddocâu heddwch. Roedd Mary Heaton eisoes wedi'i derbyn i'r Orsedd yn 1914 gyda'r enw barddol Mair Hetwn. Cydnabyddiaeth oedd hyn am yr holl waith da roedd wedi'i wneud. Daeth anghydedd arall iddi yn 1920 pan dderbyniodd yr MBE.

Cafodd pawb sioc yng Ngorffennaf 1920 pan gyhoeddodd y Weinyddiaeth Lafur eu bod yn mynd i gau'r ganolfan yn Nhrefnant oherwydd pryder am foddier farchnad â chynnyrch. Roeddent hefyd wedi cael trafferth gydag undebau llafur a chanlyniad hyn oedd i ddeunaw o weithwyr golli eu gwaith.

Afraid dweud, roedd Mary Heaton yn neilltuol siomedig â'r penderfyniad ac ysgrifennodd at Lloyd George yn cwyno gan holi am unrhyw grantiau oedd ar gael. Cysylltodd ag adrannau eraill o'r llywodraeth ond ni chafodd unrhyw lwc. Awgrymodd wrth bwyllgor rheoli'r ganolfan y dylid gwerthu

cartref y milwyr, Bryn Dyffryn, gan ei fod yn faich ariannol ac yna ailsefydlu'r fenter fel diwydiant cartref fel ag yn 1909. Mae'n ymddangos mai dyna a ddiwyddodd a chadwyd y gweithdy gan wneud cais am statws elusennol yn 1921. Adnabyddid y gwaith fel Diwydiannau Gwledig Dyffryn Clwyd gan barhau i wneud teganau a basgedi. Pan ymwelodd Tywysog Cymru â Dinbych yn 1923 cyflwynwyd un o'r basgedi hyn (hamper) iddo. Symudwyd y busnes o Drefnant i Ddinbych yn Ionawr 1924 er mwyn bod mewn canolfan farchnata fwy. Rhoddodd y pwyllgor rheoli y gorau i gynhyrchu teganau yn 1926 gan drosglwyddo'r busnes i ofal Evan Davies, milwr clwyfedig fu gyda'r gwaith ers pedair blynedd. O hynny ymlaen talai'r pwyllgor y rhent, y dreth a'r yswiriant am yr adeilad. Nid oedd gwerthu ar y teganau erbyn hyn a chyflwynwyd hwy i ysbytai lleol gan y pwyllgor.

Cafwyd llwyddiant gyda'r tegan 'Moch Mr Baldwin' yn ystod y 1920au. Prynwyd rhai teganau gan y Dywysoges Elizabeth yn 1930 a rhoddodd ymgyrch prynu nwyddau Prydeinig hwb i'r busnes yn 1931. Erbyn 1938 roedd pwyllgor rheoli Diwydiannau Gwledig Dyffryn Clwyd wedi dod i ben a rhoddwyd terfyn ar ei statws elusengar.

Roedd rhai o'r teganau o safon uchel iawn Yr oeddynt wedi eu gwneud o bren a phren haenog ac wedi'u peintio'n hardd. Roedd darnau symudol mewn rhai ac roedd y stamp 'Vale of Clwyd Toy Factory' ar rai ohonynt hefyd. Tybed faint o'r rhain sydd wedi goroesi?

AR WERTH

Cyflwr Amryw yn cynnwys yr eitemau hyn: (i) Eisteddfod Wyddgrug 1851 (Golygydd Andreas o Fôn); (ii) Awdl Y Greadigaeth, Emrys, Dolgellau 1849; (iii) Awdl ar yr Adgyfodiad, 1850, Llanrwst 1851; (iv) Awdl ar yr Adgyfodiad, R. Parry, Dolgellau 1851; (v) Yr Adgyfodiad, Ieuan Glan Geirionydd, Llundain 1851; (vi) Caniadau Glyndwr, Bethesda 1857; (vii) Pryddestau I. B. Morris (Gwyneddffardd), Dolgellau (1853); (VIII) Palestina, Iorwerth Glan Aled, Caerdydd 1851; (ix) Pregeth Edward Roberts, Dinbych, Gwrecsam 1849. Cyflwr daclus mewn rhwymiad hardd. Pris £30 (yn cynnwys cludiant).

Y Parchg Ddr D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW. (0151) 724 1989.